# Atyniadau ar hyd Rhodfa'r Goedwig

# Attractions along the Forest Drive

## P1 Man y Chwedlau | Place of Legends



**Croeso i Fan y Chwedlau**

Dewch i fwynhau awyrgylch y lleoliad ymlaciol hwn, gan gymryd amser i fwynhau picnic, tro bach hamddenol, neu rannu ambell stori yn yr ardal adrodd straeon. Mae digon o le i gael hwyl yn y glaswellt agored, a man chwarae i'r plant ei fwynhau!

**Welcome to the Place of Legends**

Come and savour the atmosphere of this relaxing setting, taking time to enjoy a picnic, a gentle stroll, or share a tale or two at the storytelling area. There's plenty of space for fun in the open grass, and a play area for the children to enjoy!

## P1 Uchaf Upper Ardal Bicnic | Picnic Area



**Hafan Dawel**

Lle perffaith i dreulio awr neu ddwy i fwynhau picnic, neu ailgydio yn eich hoff lyfr, gan ymgolli yng ngolygfeydd a synau byd natur o'ch cwmpas.

**A Tranquil Haven**

A perfect place to spend an hour or two to enjoy a picnic, or catch up on your favourite book, taking in the sights and sounds of nature all around.

## P2 Trem Twmbarlwm View



**Golygfeydd panoramig ac ymlacio**

Mwynhewch dro drwy'r ardal bicnic â waliau cerrig, lle gallwch ryfeddu at y golygfeydd panoramig o un o'r mannau eistedd cysgodol.

**Panoramic views and relaxing**

Enjoy a stroll through the stone-walled picnic area, soaking in the panoramic views from one of the sheltered seating areas.

## P3 Coed Odyn | Kiln Wood



**Taith gerdded yn y goedwig**

Ewch ar grwydr drwy'r coed mawreddog, gan ymgolli yng ngolygfeydd, synau ac arogleuon yr ardal dawel hon. Neu beth am rannu stori yn y cylch boncyffion, neu yng nghysgod y gasebo pren sy'n edrych dros lethrau godidog y dyffryn o'ch cwmpas?

**A walk in the woods**

Take a wander through the majestic trees, absorbing the sights, sounds and smells of this tranquil area. Or why not share a story at the log circle, or in the shelter of the wooden gazebo overlooking the outstanding views of the surrounding valley?

## P4 Maes Chwarae Cwm Carn | Carn Valley Play Area



**Maes chwarae gyda golygfa**

Dyma fan o hwyl a sbri i'r teulu i gyd – mae digon yma i blant o bob oed ei fwynhau. O siglenni basged a fframiau dringo i dwneli a sleidiau lu.

**A play area with a view**

Offering a bundle of fun for all the family, there's plenty here for children of all ages to enjoy. From basket swings and climbing frames to tunnels and slides galore.

## P5 Crib y Gwynt | Windy Ridge



**Amser paned gyda golygfa**

Ymlaciwch a mwynhewch ysblander yr olygfa, efallai â fflasg o de. Os byddwch yn mentro allan o'ch car, daliwch eich gafael am eich het gan ei bod hi'n gallu mynd braidd yn wyntog yma!

**Tea break with a view**

Simply sit back and enjoy the picturesque view and enjoy a flask of tea. If you venture out of your car hold onto your hat as it gets rather windy here!

## P6 Coed Mam-gu | Grandmother's Wood



**Golygfeydd draw am Loegr**

Dyma lecyn sy'n cynnig golygfeydd panoramig anhygoel o'r trefi cyfagos ac aber hardd afon Hafren: yr ardal hon yw gwir drysor rhodfa'r goedwig, ac allwch chi ddim gadael heb dynnu llun! Gyda mannau picnic hardd ac ardal chwarae i'r plant, mae hwn yn lle perffaith i dreulio'r prynhawn.

**Views to England**

Offering breath-taking panoramic views of the surrounding towns and the picturesque Severn estuary, this area truly is the 'jewel in the crown' of the forest drive, and a photo opportunity must! With pretty picnic areas and a play area for the children, this is a perfect place to spend the afternoon.

## P7 Pegwn y Bwlch | Head of the Pass



**Porth i Fryngaer Twmbarlwm**

Mae'r llecyn hwn yn edrych dros ysblander eang y wlad, ac yn lle gwych i gael picnic braf. Beth am roi cynnig ar y llwybr serth at fryngaer eiconig Twmbarlwm?

**Gateway to Twmbarlwm Hillfort**

With far-reaching views of the countryside, this is a great spot for a picturesque picnic. Why not try the steep ramble up to the iconic Twmbarlwm iron age hillfort?




## Ar agor | Open

| Ar agor | Open |
|---|---|
| **1 Maw – 31 Hyd 10:00-18:00** | **1 Mar 1 – 31 Oct 10:00-18:00** |
| **Penwythnosau yn unig**<br>1 Tach – diwedd Chwe 10:00-16:00 | **Weekends only**<br>1 Nov – end Feb 10:00-16:00 |
| **Dim mynediad o fewn 2 awr cyn amser cau** | **Last entry 2 hours before closing time** |
| **Caiff y clwydi eu cloi ar ôl amser cau** | **Barriers locked after closing time** |
| **Talu â**<br>cherdyn / taleb / tocyn tymor yn unig (Mae talebau/tocynnau tymor ar gael o'r ganolfan ymwelwyr) | **Payment by**<br>card / token / season ticket only (Tokens/season tickets from visitor centre) |
| **Gall fod ar gau mewn tywydd drwg** | **May be closed during bad weather** |

| Car | 1-16 (minibus) | 17+ (coach) | Motorbike |
|---|---|---|---|
| £8 | £15 | £30 | £4 |

Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

If you would like this publication in a different format, please let us know:
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk 0300 065 3000


NATU108 03/21

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100% | Printed on 100% recycled paper

FSC www.fsc.org FSC® C115912
Arwydd o goedwigaeth gyfrifol
The mark of responsible forestry

Mae coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®

Natural Resources Wales forests have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®

Parc Rhanbarthol y Cymoedd | Valleys Regional Park


Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government


Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Canllaw'r Rhodfa
Drive Guide

# Rhodfa Coedwig Cwm Carn Forest Drive

// Profiad y goedwig yng nghanol y Cymoedd
The forest experience in the heart of the valleys



cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales

fforest cwmcarn forest

Caerphilly County Borough Council | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cymru Wales

## Croeso i Rodfa Coedwig Cwm Carn



**O fannau picnic a llwybrau cerdded hygyrch, i feysydd chwarae ac ardaloedd adrodd straeon, mae rhywbeth yma sydd at ddant pawb!**

Gyda'r golygfeydd ysblennydd sy'n edrych dros y wlad o'ch cwmpas, a thoiledau hygyrch ar hyd y ffordd, mae Rhodfa'r Goedwig yn rhoi cyfle delfrydol i dreulio'r diwrnod yn yr awyr agored gyda ffrindiau a theulu!

Os ydych chi'n chwilio am rywbeth ychydig yn fwy heriol, beth am grwydro ar hyd un o'r llwybrau cerdded sydd ar gael, neu heicio i fyny i fryngaer eiconig Twmbarlwm a adeiladwyd yn Oes yr Haearn? Neu i'r rheini ohonoch sy'n chwilio am wefr ar wib - beth am roi cynnig ar un o'r llwybrau beicio mynydd gwych?


## Welcome to Cwm Carn Forest Drive

**From picnic areas and accessible walks, to playgrounds and story-telling areas, there's something here for everyone to enjoy!**

Spectacular views overlooking the surrounding countryside, and accessible toilets along the way, make the Forest Drive the ideal opportunity to spend the day out with friends and family!

If you're looking for something a bit more challenging, why not take a ramble along one of the walking trails on offer, or take a hike up to the iconic Twmbarlwm Iron Age hillfort? Or for those of you seeking thrills on wheels - why not try out one of the fantastic mountain bike routes?








### Allwedd Map Key

- Parcio / Parking
- Canolfan ymwelwyr / Visitor centre
- Toiledau / Toilets
- Toiledau hygyrch / Accessible toilets
- Llwybrau hygyrch / Accessible trails
- Golygfan / Viewpoint
- Caffi / Café
- Lle picnic / Picnic area
- Maes chwarae / Play area
- Llwybrau beicio mynydd / mountain bike trails
- Llwybrau cerdded / Walking trails
- Rhodfa'r Goedwig / Forest Drive
- Cerflun / Sculpture

